# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 22 Ebrill, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman a J. Protheroe; a M. Evans (Aelod Lleyg).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), H.C. Hamilton a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan Cynghorydd N.J. Wood.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2024 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. ADOLYGIAD STRATEGAETH DDIGIDOL - CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI’r canfyddiadau a ddeilliodd o’r adolygiad o Strategaeth Ddigidol y Cyngor (Atodiad A i’r adroddiad), yr ymateb i ganfyddiadau’r adolygiad ac argymhellion Archwilio Cymru (Atodiad B i’r adroddiad).

(2) BOD y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad diweddaru ymhen chwe mis fel rhan o’r amserlen fonitro ddiwygiedig ac i unrhyw faterion a meysydd llithriant gael eu hamlygu yn yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. DIWEDDARIAD AR Y COD RHEOLAETH ARIANNOL 2023/24 (CAC) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Rheolaeth Ariannol a chynnwys yr adolygiad, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(2) Y DYLID hysbysu'r Cabinet o farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, yn ogystal â'r goblygiadau posibl a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor o ran cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN SEILIEDIG AR RISG ARCHWILIO MEWNOL 2023/24 (PGAWR) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI cynnwys yr adroddiad a sefyllfa derfynol amodol Cynllun Blynyddol Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2023/24.

(2) GOFYN i'r Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol ar gyfer y tri archwiliad sicrwydd cyfyngedig a nodwyd ym mharagraff 2.6 o'r adroddiad yn ymwneud â Chanolfannau Hamdden, Dyledwyr a Chartrefi Preswyl, fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ddarparu adrodd a diweddaru ar y camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion yn dilyn yr adolygiad o Archwilio Mewnol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael diweddariad mewn perthynas â'r tri archwiliad sicrwydd cyfyngedig a amlygwyd ym mharagraff 2.6 yr adroddiad.

EITEM AGENDA 7. MONITRO ARGYMHELLION (PGAMR) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI cynnwys yr adroddiad.

(2) MEWN perthynas â materion iechyd a diogelwch a chydymffurfiaeth adeiladau ysgolion, bod y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau yn cynorthwyo Cyfarwyddwr

yr Amgylchedd a Thai i sicrhau bod yr ysgolion a nodir yn yr adroddiad yn bodloni'r rheoliadau cydymffurfio ac iechyd a diogelwch angenrheidiol.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL 2024/25 (PGAMR) –

PENDERFYNWYD – NODI'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, yn amodol ar ystyriaeth bellach ynghylch a fyddai angen cyfarfod Arbennig / Eithriadol ar gyfer Mai 2024.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.